# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 20 Rhagfyr 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

**Aelodau Cabinet Arweiniol** – roedd y Cynghorydd Tony Thomas yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen
Roedd y Cynghorydd Mark Young yn bresennol ar gyfer Eitem 6 ar y Rhaglen

**Arsylwr** – Y Cynghorydd Graham Timms

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB) (yn lle'r Cyfarwyddwr Cor (NS)); Swyddog AHNE (HS); Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth (HR) Cymunedol (ST); Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield, Hugh Irving a/ac David Williams

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Christine Marston gysylltiad personol yn eitem 5 gan ei bod yn aelod o'r Bartneriaeth AHNE.

Datganodd y Cynghorydd Christine Marston gysylltiad personol yn eitem 5 gan ei bod yn Gefnogwr AHNE i Gyngor Tref Llangollen.

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol yn eitem rhif 6 oherwydd ei rôl fel Ynad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Cadeirydd i ddymuno dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Joan Butterfield am wellhad buan.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd 8 Tachwedd 2018.

***PENDERFYNWYD*** *- derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2018 fel cofnod cywir.*

**5 CYNLLUN RHEOLI ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY A CHYNLLUNIAU AWDURDODAU LLEOL A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y GWAITH AR Y CYD RHWNG AHNE CYMRU**

Croesawodd y Cadeirydd Howard Sutcliffe (Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad) a Huw Rees (Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth) i'r cyfarfod am drafodaeth ar gynlluniau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Dai, Rheoleiddio a’r Amgylchedd, y Cynghorydd Tony Thomas, adroddiad ac atodiadau y swyddog AHNE (dosbarthwyd yn flaenorol) oedd yn briffio’r Pwyllgor ar y berthynas rhwng Cynllun Rheoli AHNE a chynlluniau a strategaethau amrywiol y Cyngor. Cynghorodd hefyd bod yr adroddiad yn diweddaru aelodau ar y trafodaethau wedi’u cynnal yn ddiweddar rhwng swyddogion y pump AHNE yng Nghymru, y Gymdeithas Genedlaethol o AHNE, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r wybodaeth ar adolygiad Lloegr o'r parciau cenedlaethol a AHNE.

Hysbyswyd yr aelodau gan yr Aelod Arweiniol a'r Swyddog AHNE bod tri allan o’r pump o'r AHNE yng Nghymru i’w cael yng Ngogledd Cymru, ac mai AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sydd â’r cyfanswm tir mwyaf yng Nghymru o’r holl AHNE. Prif ddiben yr AHNE yw cadw a gwella tirwedd yr ardal yn unol â gofynion Adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Gan fod ardal ddaearyddol AHNE yn cynnwys Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, sefydlwyd Cydbwyllgor lle mae aelodau Cabinet o bob cyngor, er mwyn sicrhau fod y tri awdurdod lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol. Mae tri o aelodau anweithredol pellach o bob cyngor yn rhan o’r grŵp Partneriaeth AHNE. Er gwaetha’r ffaith bod y mwyafrif o’r ardal AHNE dynodedig i’w gael o fewn Sir Ddinbych mae pob un o’r tri awdurdod yn aelodau cyfartal o’r Cydbwyllgor ac yn cyfrannu cyfanswm cyfartal o arian i’w cyllideb i dalu am gostau staffio ac ati. Mae Cynllun Rheoli AHNE, sydd wedi rhoi dyletswydd statudol i ddatblygu a rheoli, wedi cael ei gynhyrchu a’i gyhoeddi yn 2014.

Cynghorwyd Aelodau fod swyddogion AHNE wedi gweithio’n agos gydag Adran Gynllunio’r Cyngor i sicrhau fod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cadwraeth statudol. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor a’i Wasanaethau Tai mewn perthynas â’r agenda iechyd a lles a hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach. Dyma nhw’n pwysleisio bod nifer o gynlluniau AHNE yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o flaenoriaethau corfforaethol - prosiectau y grugiar ddu, gylfinir, gwenoliaid bach a grug i gyd yn cefnogi’r gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol yn ymwneud â’r amgylchedd. Tra bod cyllid yn ariannu'r gwaith i'w wneud ar brosiectau eraill, fel y sgwâr yn Llangollen, datblygu siop gymunedol yn yr hen ysgol yn Llandegla a gwaith tafarn gymunedol y Raven yn Llanarmon-yn-Iâl i gyd yn cyfrannu at wireddu blaenoriaethau cymunedau cysylltiedig â chymunedau

cadarn. Mae cyflawni'r prosiectau hyn yn dibynnu'n fawr ar staff a gwirfoddolwyr AHNE.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus, Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth a'r Swyddog AHNE:

- sicrhau'r Gymuned fod Sir Ddinbych yn elwa o'r ffaith bod Llwybr Genedlaethol Clawdd Offa yn ymestyn hyd ardal gyfan AHNE o Brestatyn i'r Waun.
  Y ffaith bod yna orsaf drên ym Mhrestatyn, diwedd y Llwybr os yw'r daith yn dechrau o Gas-Gwent yn ei hun yn fonws gan ei fod yn golygu bod cludiant hygyrch ar gael ar ddiwedd eu taith. Mae'r AHNE yn derbyn cyllid gan CNC i wneud gwaith cynnal a chadw ar y Llwybr ac i weithio gyda grwpiau eraill fel Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd ar fentrau yn ymwneud â thwristiaeth yn gysylltiedig â'r Llwybr h.y. cefnogi ceisiadau ar gyfer trosi beudai yn llety gwyliau ac ati, wrth sicrhau nad oes caniatâd yn cael ei roi i ddatblygiadau mawr eraill a fyddai'n cael effaith andwyol ar yr ardal;
- cadarnhau fod arsylwadau AHNE ar geisiadau cynllunio wedi'u hadrodd yn y Pwyllgor Cynllunio neu adroddiadau ar benderfyniadau wedi eu dirprwyo i Aelod Arweiniol.
  Ceisiadau mawr fel ffermydd gwynt neu ddatblygiadau mawr ayb yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio i'w hystyried. Byddai arsylwadau AHNE hefyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio yn yr adroddiad. Tra bod yr adroddiad ond yn cynnwys crynodeb o ymateb yr AHNE gall aelodau ofyn i weld yr ymateb yn ei gyfanrwydd os y dymunent wneud hynny;
- cynghori bod cofnodion Cyd-bwyllgor AHNE, Partneriaeth AHNE a'i grwpiau gweithio yn ôl themâu ar gael i'r cyhoedd.
  Mae cofnodion y grwpiau gweithio yn ôl themâu wedi'u cyhoeddi gyda phapurau pwyllgor ar gyfer cyfarfodydd Partneriaeth AHNE;
- cadarnhau fod AHNE yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc trwy ei raglenni Parcmon Ifanc a thrwy ei brosiectau iechyd gwirfoddol.
  Swyddogion hefyd yn ymweld ag ysgolion i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn a'r AHNE yn gyffredinol;
- cynghori er bod canolfan gweithgareddau awyr agored Colomendy yn Loggerheads bellach ddim yn cael ei redeg gan Gyngor Dinas Lerpwl, bod disgyblion o ysgolion y ddinas yn parhau i fynychu cyrsiau yno sydd bellach yn cael ei rhedeg gan Kingswood;
- cadarnhau fod taflenni Milltiroedd Cymunedol wedi eu cyhoeddi gan AHNE ar y cyd â Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor ar gael mewn nifer o wahanol lefydd yn AHNE yn ogystal ag mewn llyfrgelloedd a Chanolfannau Croeso.
  O ganlyniad i leihad mewn cronfeydd cyhoeddus, rhaid talu 50c i'w prynu, roeddent yn arfer bod am ddim. Y rheswm dros godi ffi fechan yw galluogi llyfrgelloedd i greu ychydig o incwm;
- cynghori fod nifer o asedau'r Cyngor wedi'u lleoli yn yr AHNE.
  Roedd yr asedau hyn yn bennaf yn rhai wedi'i trosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor ar ad-drefnu awdurdod lleol h.y. y ffordd o Ddyserth i Brestatyn, Bryn Prestatyn, Loggerheads ayb.
- rhoi golwg cyffredinol o Gynllun Rheoli Cynaliadwy gwerth £700k sydd yn gweithredu ar hyd lain arfordirol gogleddol Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint sydd yn cynnwys defnyddio merlod Carneddau i bori ar y twyni tywod.

Pan nad oedd angen y merlod i bori'r twyni defnyddiwyd nhw mewn llefydd eraill yn yr ardal h.y. Gwarchodfa Natur Aberduna yn Maeshafn yn yr AHNE. Mae’r cynllun rheoli yn cynnwys cyllid gan CNC at raglenni rheoli dŵr a ffensio;

- cadarnhau mai eu gweledigaeth ar gyfer AHNE oedd parhau i weithio’n agos gydag awdurdodau lleol, gan eu bod yn teimlo fod y dull hwn yn gweithio'n dda yng ngogledd ddwyrain Cymru;
- cynghori fod y fioamrywiaeth wrth graidd gweledigaeth AHNE ar gyfer yr ardal. Mae’r gwaith yn canolbwyntio ar dirwedd yr ardal, rhos ucheldir iach gyda chynefin grug gyda rhywogaeth gynhenid o fflora, ffawna a bywyd gwyllt. Gweithio’n agos gyda ffermwyr a phorwyr i allu ailgyflwyno tir ffridd draddodiadol gan ddefnyddio ymarferion llosgi dan reolaeth i reoli rhedyn ac i helpu i feithrin cynefin yn yr ucheldir.
- cadarnhau fod Swyddog Bioamrywiaeth wedi cael ei benodi i helpu’r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hyrwyddo atgyfnerthu systemau eco yn unol â gofynion Rhan 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae’r gwaith yn drawsbynciol ac yn cynnwys mewnbwn i raglen torri gwair ar ymylon priffyrdd yr Awdurdod, gweithio i gynnal a chynyddu poblogaeth y rugiar ddu, môr-wenoliaid bach a gwiberod ayb. a fyddai yn ei dro yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor yn ymwneud â'r amgylchedd;
- cynghori fod swyddogion AHNE yn gweithio’n agos gyda Fforwm Mynediad Lleol Conwy a Sir Ddinbych.
  Os oeddent yn dod yn ymwybodol o unigolion, busnes neu sefydliadau sydd â diddordeb cynnig profiadau amgylcheddol/bywyd gwyllt h.y. gweithgareddau neu wyliau y byddan nhw'n cefnogi drwy helpu nhw i gysylltu â'r Fforwm Mynediad Lleol a chael mynediad i ffynonellau cyllid posib i’w helpu nhw sefydlu eu busnesau;
- cadarnhau bod y tân ar rostir Mynydd Llantysilio yn ystod haf 2018 wedi achosi difrod tymor canolig i hirdymor ar ecosystem yr ardal.
  Byddai’n cymryd amser sylweddol i gynefin y mynydd ail-afael ac i rywogaethau cynhenid ddychwelyd. Er bod modd gweld egin gwyrdd ar hyn o bryd ar y mynydd, rhedyn oedd hyn yn bennaf a allai mewn gwirionedd achosi rhagor o broblemau os ddim yn cael ei reoli'n gywir. Mae cais am gyllid wedi’i gyflwyno gyda'r bwriad o ailgyflenwi gwaith adfer ar y mynydd. Byddai Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cynnal cyfarfod arbennig yn archwilio’r tân a’i effaith yn ystod Gwanwyn 2019;
- cynghorwyd bod swyddogion AHNE yn cefnogi a helpu ffermwyr a phorwyr mewn perthynas â materion rheoli tir i sicrhau eu bod nhw, ymwelwyr a thwristiaid yn elwa o’r buddion mwyaf o’r amgylchedd lleol.
  Dyma nhw hefyd yn gweithio gyda Thîm Datblygu Economaidd y Cyngor a busnesau unigol yn eu nod i sicrhau fod busnesau bach yn gwneud y mwyaf o’u hincwm trwy gymryd rhan mewn cynlluniau fel ymgyrchoedd Aros, Bwyta yn lleol ac ati.;
- tynnu sylw aelodau i ymateb ar y cyd wedi’i baratoi gan bump o swyddogion AHNE Cymru i ymgynghoriad gan Weinidog yr Amgylchedd LlC ar fwy o gydraddoldeb i AHNE gyda Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru, a chopi wedi'i atodi gyda’r adroddiad, yn amlinellu pob un o'r ddeuddeg pwynt a godwyd yn y ddogfen;
- cadarnhau os byddai newidiadau deddfwriaethol yn cael eu cynnig fel rhan o ymgynghoriad LlC uchod byddai Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi, a fyddai’n destun ymgynghoriad pellach.

Mae’n debygol y byddai’n o leiaf dwy flynedd cyn i unrhyw newidiadau ddod i rym; ac

- cynghorwyd bod LIC wedi ymrwymo i ynni ‘gwyrdd’ ac ardaloedd dynodedig lle byddai ynni 'gwyrdd' yn cael ei gynhyrchu, yn enwedig yn lle dylai ffermydd tyrbinau gwynt ar raddfa fawr gael eu lleoli.
 Mae’r llywodraeth bellach yn canolbwyntio ar fuddion cymunedol y dylid eu gwireddu o brosiectau ynni ‘gwyrdd’ h.y. y cynllun hydro yng Nghorwen sydd wedi bod o fudd i’r gymuned leol yn y dref, bydd y gronfa mantais gymunedol fawr fydd ar gael yn fuan i gymunedau wedi’u heffeithio gan ffermydd gwynt y Brenig a Chlocaenog, lle bydd oddeutu £170K a £750K yn ôl eu trefn ar gael i brosiectau cymunedol ar gyfer y 25 mlynedd nesaf. Mae ymgynghoriad yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â'r cynlluniau hyn, gan gynnwys pa gymunedau ddylai elwa, y math o brosiectau i’w hariannu, cymorth ar gael i gymunedau i wneud cais am gyllid a gweinyddu’r gronfa. Cytunodd aelodau fod y cronfeydd hyn yn deilwng o gael eu hystyried i'w craffu ar ddyddiad diweddarach a gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynghorydd Rhys Thomas i lenwi ‘ffurflen gynnig i aelodau' ar ran y Pwyllgor a'i gyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i’w ystyried;

Er ddim yn yr AHNE fe ofynnodd aelodau i swyddogion holi am y sefyllfa bresennol ynghylch y 7 erw o dir yn ardal Parc Bruton, y Rhyl, a oedd wedi cael ei adael i breswylwyr lleol, a chynigion i’w ddynodi fel gwarchodfa natur.

Dyma aelodau yn llongyfarch ac yn cymeradwyo Swyddog Cefn Gwlad y Cyngor ar gyfer gogledd y sir a'i dîm ar y gwaith cadwraeth wych ac ymrwymo’r cyhoedd yn y gwaith y byddan nhw'n ei wneud yn yr ardal.

Wedi trafodaeth fanwl dyma’r Pwyllgor yn:

***PENDERFYNU: -*** *wedi ystyried y Cynllun, yn ddarostyngedig i’r arsylwadau uchod a’r Aelod Arweiniol a swyddogion yn mynd i’r afael â’r camau gweithredu a nodwyd, yn cadarnhau ei fod wedi sicrhau bod nodau ac amcanion y Cynllun yn cefnogi ac ategu gweledigaeth a dyheadau’r Cyngor ar gyfer yr ardal*

I ystyried yr eitem busnes canlynol fe weithredodd y Pwyllgor yn ei gymhwysedd fel y Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn ddynodedig yn unol ag adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006

## 6 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL AR GYFER 2017-2018

Croesawodd y Cadeirydd Sian Taylor (Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol) i'r cyfarfod.

Mae’r Aelod Arweiniol dros Safonau Corfforaethol wedi cyflwyno adroddiad ac atodiadau'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol (wedi’i ddosbarthu’n flaenorol) oedd wedi cyflwyno’r Pwyllgor gyda Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i 2017-2018. Yn ystod ei gyflwyniad fe ddywedodd yr Aelod Arweiniol wrth y Pwyllgor fod y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru yn gyfrifol am gytuno’r blaenoriaethau i’r rhanbarth a llunio cynllun gweithredu i bob Partneriaeth

Diogelwch Cymunedol ei gyflawni. Mae cyflawni'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro yn rheolaidd gan Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn dadansoddi ei berfformiad wrth gyflawni'r cynllun ar gyfer ei ardal a llunio ateb lleol i broblemau lleol.

Cynghorodd y Rheolwr PDC fod 2017-18 wedi bod yn flwyddyn ariannol heriol i PDC yn lleol, a bod ei berfformiad i gyflawni ei gynllun gweithredu yn ardal Sir Ddinbych wedi bod yn dda ar y cyfan.

Yn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus a'r Rheolwr PDC:

- eu bod yn cytuno er bod y geiriad ar gyfer Blaenoriaeth 1 ar gyfer 2017-18 'Lleihau Trosedd ac Anhrefn yr yr Ardal' yn ymddangos i fod yn amlinellu holl ddiben y PDC, roedd hi'n bwysig canolbwyntio ar y camau gweithredu o flaenoriaeth a nodwyd er mwyn gwireddu'r flaenoriaeth hon ar gyfer y flwyddyn benodol hynny.
  Lleihau trosedd ac anrhefn wastad yn uchelgais gan PDC a'i ddyhead sylfaenol;
- cynghorwyd fod y nifer gostyngol o achosion trais domestig yn flaenoriaeth i'r PDC, yn ogystal â blaenoriaeth i LlC a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru.
  Roedd hefyd yn ymddangos yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor fel rhan o flaenoriaeth corfforaethol Cymunedau Cryf. Roedd yn bwysig cofio ei bod yn hanfodol i droseddau gael eu riportio er mwyn gallu eu hymchwilio. Mae llwyddiant ymdrechion a wnaed i annog pobl i riportio achosion o drosedd wedi cael effaith negyddol ar yr ystadegau gyda nifer o achosion yn cael eu riportio yn uwch mewn nifer o ardaloedd. Fodd bynnag, er bod hynny'n ymddangos yn groes i'r graen roedd yn helpu swyddogion i adnabod patrymau neu dueddiadau a cheisio creu atebion posib i fynd i'r afael â gwraidd y broblem a cheisio atal unrhyw gynnydd yn y dyfodol;
- cynghorwyd fod Barnardo's wedi ymgymryd â llawer o waith mewn perthynas ag addysgu pobl, yn enwedig pobl ifanc ar yr hyn sy'n dderbyniol/ ddim yn dderbyniol mewn perthynas, gyda'r nod o leihau trais domestig;
- cynghorwyd bod y Strategaeth Cam-Drin Domestig Rhanbarthol ar gael i aelodau i'w ddarllen ar wefan y Cyngor.
  Mae holl staff y Cyngor wedi cyflawni modiwl hyfforddiant ar-lein ar drais domestig a'r gobaith oedd cyflwyno'r modiwl hwn i aelodau etholedig yn y flwyddyn newydd. Mae dros 200 o bobl wedi mynychu digwyddiad yn Neuadd y Dref y Rhyl gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig yn ei nifer ffurfiau a sut y mae'r rheiny wedi'u heffeithio yn cael cymorth a help. Roedd yr holl wasanaethau cam-drin domestig yn bresennol yn ogystal â Cyngor ar Bopeth (CAB). Mae'r PDC yn awyddus i drefnu digwyddiadau tebyg yn y dyfodol ond ar hyn o bryd ddim gyda'r cymhwysedd i'w cynnal nhw'n rheolaidd. Un dull posib ar gyfer digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn y dyfodol fyddai bod yn bresennol mewn cynadleddau/digwyddiadau wedi'u trefnu gan sefydliadau partner h.y. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac ati;
- cytunwyd i ddarparu aelodau gyda manylion o'r wybodaeth ystadegol sydd yn cyd-fynd ag adroddiad perfformiad blynyddol 2017-18;

- cadarnhawyd fod cyngor wedi cael ei rannu gyda phreswylwyr ar sut i ddelio â sgiâm dros y ffôn ayb. mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned aml-asiantaeth a gynhaliwyd trwy gyfryngau cymdeithasol.
  Roedd yr heddlu yn hollol ymwybodol o'r problemau a'r gorbryder y mae sgiâm o'r fath yn ei achosi, yn enwedig i unigolion diamddiffyn. Mae sgiâm o'r fath yn gwastraffu adnoddau gwerthfawr yr Heddlu hefyd;
- cydnabod bod problemau gyda rhif ffôn yr Heddlu ar gyfer achos sydd ddim yn argyfwng, 101, a'u bod yn ymwybodol o hynny;
- cynghorwyd fod dull amlasiantaeth yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleihau gwahanol fathau o droseddau h.y. pobl ifanc yn defnyddio beiciau yn anghyfrifol a pheryglu eu hunain ac eraill, aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ati;
- cynghori fod y gweithredodd cyffuriau 'llinellau cyffuriau' a chaethwasiaeth fodern yn feysydd eithriadol o gymhleth oedd angen staff arbenigol o'r Heddlu i archwilio ac i fynd i'r afael â'r problemau hyn.
  Mae llawer iawn o amser yn cael ei dreulio ar yr archwiliadau cymhleth hyn.
  Mae'r PDC a'i sefydliadau partner yn canolbwyntio mwy o'u hadnoddau ar waith atal gyda phlant, pobl ifanc a grwpiau diamddiffyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o beryglon o gymryd sylweddau anghyfreithlon. Mae PDC a swyddogion Diogelu yn gweithio'n agos er mwyn diogelu y diamddiffyn rhag troseddwyr o'r troseddau hyn, gan fod defnyddwyr cyffuriau eu hunain yn ddioddefwyr o droseddau'r gwerthwyr cyffuriau;
- cadarnhawyd fod y datganiadau a wnaed yn y misoedd diwethaf gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â defnyddio cyffuriau yn yr ardal heb ddal gwaith y PDC yn ei ôl mewn unrhyw ffordd;
- cynghorwyd bod PDC yn gweithio'n weithredol gydag adrannau safonau masnach yr awdurdod lleol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a'u cyfrifoldeb i brynu nwyddau o ansawdd gyda'r bwriad o leihau cyfleoedd i unigolion i ecsbloetio pobl ddiamddiffyn trwy ymarferion caethwasiaeth fodern i gynhyrchu nwyddau o ansawdd isel am brisiau isel iawn.
  Mae ansawdd gwael rhai o'r nwyddau hyn o bosib yn gallu achosi risg iechyd a diogelwch i'r prynwr neu bwy bynnag wnaeth eu derbyn nhw;
- rhoi golwg cyffredinol o sut y byddai gweithdrefnau diogelu yn cael eu annog pe bai pryderon yn cael eu cyflwyno i bartner PDC am ddiogelwch unigolyn diamddiffyn.
  Yn yr un modd pe bai'n dod yn amlwg bod plentyn sy'n derbyn gofal mewn perygl o niwed byddai'r holl Gysylltiadau Diogelu PDC yn cael eu rhybuddio a byddai ymateb aml-asiantaeth yn cael ei lunio. Byddai hyn yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol h.y. Yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Iechyd, rhieni Maeth ayb.;
- cydnabod bod diogelu ac amddiffyn plentyn rhag niwed yn llawer haws yn ystod oriau ysgol na thu allan i oriau ysgol.
  Fodd bynnag ni allai'r Cyngor fforddio i fod yn fodlon yn y maes hwn ac wedi cydnabod yr angen i wella ei waith diogelu yn barhaus er gwaethaf pwysau cyllidebol. Mae gan y Fforwm Rhiantu Corfforaethol rôl bwysig mewn materion diogelu. Aelodau yn cyfeirio at gyflwyniad gwych ar Ddiogelu wedi'i roi i'r Fforwm Rhiantu Corfforaethol a gofynnwyd iddo gael ei ddangos i'r holl aelodau yn y dyfodol agos;

- cynghorwyd bod y PDC yn gweithio'n agos gydag ysgolion er mwyn adnabod disgyblion oedd mewn risg o fod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol ayb.; gyda'r nod o ddarparu gwaith ymyrraeth ragweithiol i'w llywio nhw i ffwrdd o fywyd a fyddai'n arwain at y system cyfiawnder troseddol;
- cadarnhau fod y dull cyfiawnder adferol a ddefnyddir gan yr Heddlu, llysoedd a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyda'r potensial o elwa'r unigolyn yn sylweddol yn ogystal â'r gymdeithas yn gyffredinol; a
- cadarnhau fod yr Heddlu wedi gofyn am gyfarfod gyda PDC gyda'r bwriad o dynnu sylw at y niwsans a achosir gan unigolion yn begian mewn llefydd cyhoeddus.
  Rhagwelwyd y gallai asiantaethau PDC ganolbwyntio eu hymdrechion i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus ar sut i ymateb i unigolion yn begian ac i gefnogi'r unigolion hynny a oedd yn begian ar hyn o bryd i gael mynediad i wasanaethau all eu helpu nhw fod yn annibynnol yn ariannol, heb ryddhau'r Heddlu i ganolbwyntio ar yr unigolion hynny oedd yn arddangos tueddiadau o fegera yn ymosodol neu yn ymddangos i fod yn dwyllodrus;

Roedd aelodau yn cydnabod y cymhlethdodau ynghlwm â'r gwaith camddefnyddio sylweddau anghyfreithlon 'llinellau cyffuriau' a'r adnoddau y mae'r Heddlu ayb., wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Fodd bynnag, maent yn teimlo ei fod yn anodd iawn iddyn nhw egluro i breswylwyr bod defnyddwyr cyffuriau yn achosi problem yn y cymunedau yn ddioddefwyr eu hunain.

Wedi trafodaeth manwl dyma'r Pwyllgor yn:

***<u>Penderfynu:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod a darparu'r wybodaeth ofynnol i dderbyn a chydnabod cynnwys yr adroddiad ar berfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2017-18 a'i Gynllun Gweithgaredd Prosiect/Partneriaeth ar gyfer 2018-19.***

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

<u>14 Chwefror 2019</u>

- Dewisiadau Gorfodi Trosedd Amgylcheddol yn y Dyfodol
- Partneriaeth Teledu Cylch Cyfyng
- Cymorth i Ofalwyr Ifanc yn Sir Ddinbych

Cytunwyd i wahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i fynychu.

Atodiad 2 – Ffurflen Cynnig Aelodau. Anogwyd aelodau i lenwi'r ffurflen ar gyfer unrhyw eitemau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu. Ar ôl derbyn byddai'r cynnig yn cael ei drafod yn y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y gwelir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Adroddodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, ar ei phresenoldeb yn yr Her Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata. Cadarnhawyd y byddai nodiadau'r cyfarfod yn cael eu dosbarthu i'r aelodau ar ôl eu derbyn nhw.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Christine Marston ei bod yn cymryd rhan yn Her Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd. Unwaith eto, cadarnhawyd y byddai nodiadau'r cyfarfod yn cael eu dosbarthu i'r aelodau ar ôl iddyn nhw gael eu hanfon atom.

***CYTUNWYD** - dylid nodi'r adroddiad llafar.*

Ar ddiwedd y cyfarfod, fe ddymunodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Iach a Hapus i bawb.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.**